**Dyddiad cyhoeddi** Ebrill 2009

**Deall canllawiau NICE**

**Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG**

***National Institute for Health and Clinical Excellence***

# Llawdriniaeth adluniol i sefydlogi cymal y glun mewn achosion o ddiffyg morddwydol ffocol procsimol (PFFD)

*Mae 'arweiniad Techlechyd' NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar sut a phryd y gellir defnyddio triniaethau newydd mewn arfer clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â sut a phryd y gellir defnyddio llawdriniaeth adluniol i sefydlogi cymal y glun yn y GIG i drin plant â diffyg morddwydol ffocol procsimol (PFFD). Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae'r arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag ariannu gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n cynnig gwerth am arian i'r GIG.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu rhieni neu ofalwyr y cynigiwyd y driniaeth hon i'w plant fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio PFFD na'r driniaeth yn fanwl – dylai aelod o dîm gofal iechyd eich plentyn hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi am y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i feddyg eich plentyn i'ch helpu i benderfynu.

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Os yw meddyg am ddefnyddio'r driniaeth hon i drin PFFD, dylai sicrhau ei fod yn cymryd camau ychwanegol i egluro'r ansicrwydd ynglŷn â pha mor dda mae'n gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Dylai egluro pa driniaethau eraill y gallai fod eu hangen, hyd yn oed ar ôl llawdriniaeth lwyddiannus, ac efallai na fydd y goes yn gweithredu'n llawn ar ôl y driniaeth. Dylai hyn ddigwydd cyn i riant neu warcheidwad y plentyn gytuno i'r driniaeth (ai peidio). Dylid rhoi'r daflen hon a gwybodaeth ysgrifenedig arall i riant neu warcheidwad y plentyn fel rhan o'r drafodaeth. Dylid hefyd roi trefniadau arbennig ar waith ar gyfer monitro'r hyn sy'n digwydd i'r plentyn ar ôl y driniaeth.

Mae NICE wedi dweud hefyd mai dim ond mewn ysbytai sy'n arbenigo mewn adlunio coesau y dylid cyflawni'r driniaeth hon, gan lawfeddygon â gwybodaeth arbenigol am broblemau clun babanod ac sy'n arbenigo mewn triniaethau ymestyn coesau.

*Efallai nad dyma'r unig driniaeth bosibl ar gyfer PFFD. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i'ch plentyn a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.*

## Llawdriniaeth adluniol i sefydlogi cymal y glun mewn PFFD

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw ‘Adlunio meinwe esgyrnog a meddal i sefydlogi cymal y glun mewn achosion o ddiffyg morddwydol ffocol procsimol (PFFD)’.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch ag meddyg eich plentyn i gael disgrifiad llawn.

Weithiau genir plant â diffygion yng nghymal y glun, asgwrn y glun ac abnormaleddau eraill yn y coesau o bosibl, a elwir yn ddiffyg morddwydol ffocol procsimol a dalfyrrir yn aml i PFFD. Mae'r opsiynau o ran triniaeth yn dibynnu ar ddifrifoldeb y PFFD. Os yw'r PFFD yn ddifrifol, efallai mai torri rhan o'r goes a gosod coes ffug (prosthesis) yn ei le yw'r dewis gorau. Ar gyfer cleifion â PFFD ysgafn, gall llawdriniaeth â'r nod o greu coes sy'n gallu gweithredu cystal â phosibl fod yn briodol. Gall hyn gynnwys llawdriniaeth gywirol ar gymal y glun.

Caiff y llawdriniaeth ei chynnal fel arfer gyda'r claf o dan anesthetig cyffredinol. Mae nifer o amrywiadau posibl. Fel arfer gwneir toriad ar ochr allanol y glun a symudir y cyhyrau a'r tendonau i un ochr. Mae hyn yn galluogi'r llawfeddyg i gyrraedd esgyrn y glun a'r pelfis. Yna mae'r llawfeddyg yn cywiro diffyg y glun ac asgwrn y glun cymaint â phosibl. Ar ôl y driniaeth, gosodir cast o blastr tra bod yr esgyrn yn gwella.

Gellir cyfuno'r llawdriniaeth gychwynnol â thriniaethau eraill (ar yr un pryd neu ar ddyddiad diweddarach) i ymestyn y goes a thrin problemau eraill fel swyddogaeth pen-glin gwael.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os yw meddyg eich plentyn wedi cynnig llawdriniaeth adluniol i sefydlogi cymal y glun i drin PFFD eich plentyn, dylai ddweud wrthych bod NICE wedi penderfynu bod y manteision a'r risgiau'n ansicr. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cyflawni'r driniaeth, ond dylai meddyg eich plentyn egluro beth mae'r driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Dylai egluro y gallai fod angen rhagor o driniaethau ar eich plentyn ac efallai na fydd y goes yn gweithredu'n llawn ar ôl y driniaeth. Dim ond ar ôl i'r drafodaeth hon gael ei chynnal y dylid gofyn i chi p'un a ydych am gytuno i'r driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y daflen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda meddyg eich plentyn cyn i chi benderfynu.

Mae NICE wedi penderfynu hefyd fod angen mwy o wybodaeth am y driniaeth hon. Efallai y bydd meddyg eich plentyn yn gofyn i chi a ellir defnyddio manylion am driniaeth eich plentyn i helpu i gasglu rhagor o wybodaeth am y driniaeth hon. Bydd meddyg eich plentyn yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am hyn.

## Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl i'm plentyn?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i'm plentyn? A allai cael y driniaeth wneud i'm plentyn deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen ar fy mhlentyn ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na fydd fy mhlentyn yn cael y driniaeth?

## Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

*Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.*

Isod ceir disgrifiad bras o rai o’r manteision a’r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar ddwy astudiaeth o’r driniaeth hon.

### Pa mor dda mae'r driniaeth yn gweithio?

Nododd astudiaeth o 14 o gleifion lwyddiant mewn naw claf (o ran gwella cerdded neu osgo, ystod o symudiadau'r goes, difrifoldeb datgymalu a gwahaniaeth yn hyd y goes). Dilynodd yr astudiaeth gynnydd y cleifion am 17 mlynedd ac yn y pen draw, roedd y gwahaniaeth yn hyd y goes rhwng 1 ac 20cm, gyda'r cyfartaledd yn 11.5cm. Nododd yr astudiaeth hon fod angen mwy nag un driniaeth ymestyn ar chwe chlaf.

Nododd astudiaeth arall o dri chlaf fod y driniaeth yn llwyddiannus ym mhob un o'r tri chlaf. Nododd yr astudiaeth hon y disgwyliwyd i bob un o'r tri chlaf gael mwy nag un driniaeth ymestyn.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai nodau'r driniaeth oedd cael coes sy'n gweithio a lleihau'r angen am ragor o driniaethau. Dywedodd y cynghorwyr hefyd y gallai torri rhan o'r goes a gosod prosthesis yn ei le gynnig canlyniad gwell i rai cleifion na'r driniaeth hon.

## Risgiau a phroblemau posibl

Yn yr astudiaeth o 14 o gleifion, y problemau a nodwyd oedd llid yr asgwrn mewn chwe chlaf, torri asgwrn mewn un claf a phoen o fethu â gwella mewn claf arall.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod y problemau posibl yn cynnwys anystwythder difrifol yn y glun a'r ben-glin, datgymalu'r glun, anffurfiad cymal, problemau gyda'r esgyrn, haint, niwed i nerfau neu bibellau gwaed, swyddogaeth wael yn y goes a byrhau'r goes yn barhaol.

# Rhagor o wybodaeth am PFFD

Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi.

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn holi barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r daflen hon yn ymwneud ag 'adlunio meinwe esgyrnog a meddal i sefydlogi cymal y glun mewn achosion o ddiffyg morddwydol ffocol procsimol (PFFD)'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/HTG189*

*Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**
MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-7896-0
N1941 1P Apr 09

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2009. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.